Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# 2023 Canllaw Grantiau

Cronfa Cymru Actif Chwaraeon Cymru

- Mae Cronfa Cymru Actif yn cynnig grantiau sydd rhwng £300 a £50,000 I brosiectau yng Nghymru sy'n bwriadu gwneud o leiaf un o'r canlynol: lleihau anghydraddoldeb, creu cynaliadwyedd tymor hir, cyflwyno ffrydd Newydd neu wahanol o weithredu.
- Rydych chi'n gymwys os ydych chi'n glwb neu'n sefydliad cymunedol yng Nghymru gyda phrosiect nad yw wedi dechrau eto.
- Dyfernir y cyllid ar raddfa symudol: grant o 100% hyd at £10,000, grant of 90% ar gyfer dyfarniadau rhwng £10,001 a £25,000, grant o 80% ar gyfer dyfarniadau rhwng £25,001 a £50,000.
- Ewch i https://www.chwaraeon.cymru/grantiau-a-chyllid/cronfacymruactif/

Crowdfunder

- Mae Chwaraeon Cymru wedi ffurfio partneriaeth â Crowdfunder i gefnogi i clybiau a gweithgareddau cymunedol i godi arian ar gyfer gwella cyfleusterau. Mae's cynllun ar gyfer clybiau dielw a grwpiau cymunedol sy'n ceisio codi arian ar gyfer gwelliannau 'oddi ar y cae'. Er enghraifft: ystafelloedd newid, adnewyddu tai clwb, paneli solar, ffens Newydd.
- Mae clybiau a sefydliadau yn sefydlu tudalen ar wefan Crowdfunder, sy'n gofyn i bobl roi arian neu'r syniad. Mae Crowdfunder yn darparu cymorth a chyngor, gan gynnwys rhywun i'ch tywyd drwy'r broses. Caiff eich prosiect Crowdfunder ei asesu gan Chwaraeon Cymru, a all benderfynu pa lefl o arian cyfatebol y byddwch yn gymwys i'w gael yn seiliedeg ar y wybodaeth rydych wedi'i nodi. Os yw'r dudalen Crowdfunder wedi cyrraedd meini prawf penodol, bydd Chwaraeon Cymru yn rhoi arian cyfatebol rhwng 30% a 50% o'r cyfanswm, hyd at ychafswm o £15,000 o arian cyfatebol.
- Ewch i https://www.chwaraeon.cymru/grantiau-a-chyllid/crowdfunder/

Cronfa Deddf Eglwys Cymru

- Mae'n darparu cefnogaeth ar gyfer gwariant cyfalaf fel: adnewyddu adeilad cymunedol, prynu offer cyfalaf. Ar gael i grwpiau cymunedol ac elusennau cyfansoddedig. Rhaid i gyfleusterau fod ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Does dim angen cyfraniad gan yr ymgeisydd ar gyfer grantiau bach (hyd at £2,000). Mae grantiau canolig (hyd at £10,000) yn gofyn am gyfraniad o 10% gan yr ymgeisydd. Mae grantiau mawr (hyd at £50,000) yn gofyn am gyfraniad o 20% gan yr ymgeisydd.
- Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Business/FundingandGrants/WelshChurchActFund.aspx

Grant Cymunedol Meysydd Glo (Cymru)

- Mae grantiau o £500 hyd at £7,000 ar gael i fudiadau cymunedol a gwirfoddol mae modd iddyn nhw ddangos yn gryf y bydd grant yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n byw yng nghymunedau Meysydd Glo Cymru.
- Rhaid i geisiadau ddangos eu bod yn bodloni o leiaf un o'r themâu canlynol: Sgiliau a hyfforddiant, Adeiladau cymunedol, Mynd i'r afael â thlodi, Iechyd a lles.
- Am ragor o wybodaeth, ewch i www.coalfields-regen.org.uk/wales_support/funding-wales/

Cronfa grant 'Game On Cymru Kit' – gyda chefnogaeth Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

- Nod y gronfa yma yw cael mwy o bobl ifainc (13-19 oed) o gymunedau Meysydd Glo Cymru i gymryd rhan mewn chwaraeon. Maen nhw'n ariannu cit chwaraeon hyd at uchafswm o £500.
- Am ragor o wybodaeth ewch i https://www.coalfields-regen.org.uk/wales_support/funding-wales/

Cronfeydd Fferm Wynt Maerdy a Threorci

- Cronfa Fferm Wynt Treorci: grantiau o £500 hyd at £5000 ar gael i unigolion a grwpiau o ardal Treorci. Am ragor o wybodaeth ewch i www.treorchywindfund.co.uk
- Cronfa fferm Wynt Maerdy: grantiau o £500 hyd at £5000 ar gael i unigolion a grwpiau o ardal Maerdy. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.maerdywindfund.co.uk

Cronfa Gymunedol Pen y Cymoedd

- Mae'r gronfa yma yn cael ei chefnogi gan Brosiect Ynni Gwynt Pen y Cymoedd. Mae modd i ardaloedd penodol yn Rhondda Cynon Taf wneud cais. Mae dau grant ar gael: y Gronfa Ficro (hyd at £5,000) a'r Gronfa Weledigaeth (dros £5,000).
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.penycymoeddcic.cymru

Ymddiriedolaeth Gymunedol Cod Post

- Mae grwpiau cymunedol neu wirfoddol cyfansoddedig yn gymwys i wneud cais am hyd at £2,000 i gefnogi prosiectau o dan 8 thema sy'n cynnwys y canlynol: Gwella llesiant meddyliol, Atal neu leihau effaith tlodi, Cefnogi grwpiau ar y cyrion a hyrwyddo cydraddoldeb, Galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol, Cynyddu mynediad y gymuned i ardaloedd awyr agored.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.postcodecommunitytrust.org.uk/

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

- Mae'r ymddiriedolaeth yn darparu cefnogaeth i brosiectau sy'n ysbrydoli ledled Cymru.
- Mae yna grant rhanbarthol sy'n croesawu ceisiadau ym maes chwaraeon. Mae'r grant yma hyd at £7,500 ac mae'n cefnogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i ranbarth.
- Mae yna grant lleol hefyd sy'n croesawu ceisiadau ym maes chwaraeon. Mae'r grant yma hyd at £2,500 ac mae'n cefnogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth i gymuned.
- Am ragor o wybodaeth ewch i www.millenniumstadiumtrust.org.uk/

Arian i Bawb Cymru – y Loteri Genedlaethol

- Prif nod y rhaglen yw ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymuned leol, gan ddod â nhw at ei gilydd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, a'u mwynhau. Mae modd i'r gweithgareddau yma ymwneud â threftadaeth, elusennau, iechyd, addysg, yr amgylchedd, yn ogystal â gweithgareddau eraill.
- Caiff grantiau gwerth rhwng £300 a £10,000 eu dyfarnu i ymgeiswyr llwyddiannus.
- Am ragor o wybodaeth, ewch i https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/programmes/national-lottery-awards-for-all-wales

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – Pawb a'i Le

- Mae dwy lefel i'r cyllid yma: Canolig (£10,001 i £100,000) a Mawr (£100,001 i £500,000)
- Mae grantiau ar gael i fudiadau gwirfoddol, mudiadau cymunedol neu fudiadau'r sector cyhoeddus. Mae modd i'r grantiau ariannu costau cyfalaf a refeniw.
- Am ragor o wybodaeth am y grant maint canolig ewch i: https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/people-and-places-medium-grants
- Am ragor o wybodaeth am y grantiau mawr, ewch i: https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/people-and-places-large-grants

Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol sy'n cael ei chynnig gan Lywodraeth Cymru

- Mae'n gynllun grant cyfalaf y mae modd ei ddefnyddio i wella cyfleusterau cymunedol sy'n ddefnyddiol i bobl yn y gymuned, ac sy'n cael eu defnyddio'n aml ganddyn nhw. Mae ar gael i grwpiau cymunedol a gwirfoddol, gan gynnwys mentrau cymdeithasol.
- Mae grantiau ar gael ar ddwy lefel: grantiau bach o dan £25,000 a grantiau mwy hyd at £250,000.
- Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://llyw.cymru/rhaglen-cyfleusterau-cymunedol

Anfonwch e-bost atom ni: ChwaraeonRhCT@rctcbc.gov.uk